# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Brocastle Manor**

**Brocastle House**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF35 5AU**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

28/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Brocastle Manor

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Cymdeithas Tai Hafod Cyf |
| Lleoedd cofrestredig | 80 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 28.9.2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl a'u perthnasau yn fodlon ar y cyfan gyda'r gofal a'r cymorth a ddarperir yn y cartref. Mae gan y bobl gynlluniau personol cywir a chyfredol sy'n nodi eu hanghenion gofal unigol. Nid oes digon o staff gofal i ddiwallu anghenion y bobl a aseswyd ar adegau. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn wybodus, yn dangos parch ac yn ofalgar. Mae cyfarpar diogelwch ar gael a chaiff atgyfeiriadau iechyd eu gwneud pan fo angen er mwyn hybu iechyd a llesiant y bobl. Rhoddir cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau. Caiff gwiriadau cyn-cyflogi eu cwblhau cyn i'r staff ddechrau yn eu rôl. Mae'r cyfarpar mewn cyflwr gweithio da ac yn cael ei wasanaethu fel sydd angen. Mae'r staff yn cael hyfforddiant i'w helpu i weithio'n ddiogel ac yn effeithlon, ond mae angen gwella'r amlder. Caiff sesiynau goruchwylio eu cynnig yn rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol yn cefnogi arfer da. Mae trefniadau llywodraethu a sicrhau ansawdd ar waith, sy'n galluogi'r gwasanaeth i fyfyrio a datblygu Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio ansawdd y gofal tra bod y rheolwr yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

## Llesiant

Mae'r ddogfennaeth gofal yn y gwasanaeth yn llawn gwybodaeth ac yn gyfredol. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl ac yn rhoi arweiniad clir i'w ddilyn. Mae cyfarpar fel system cloch alw ar gael ond nid yw'r gwiriadau fesul awr bob amser yn cael eu cwblhau. Mae angen codi'r lefelau staffio er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal cywir ar yr adeg gywir. Mae'r bobl yn aros mor iach â phosibl oherwydd atgyfeiriadau amserol at weithwyr gofal iechyd proffesiynol a threfniadau ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn effeithiol.

Mae amrywiaeth o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gael i'r bobl. Mae gwybodaeth am eu hanghenion iechyd corfforol ac emosiynol, llesiant a chymorth ymddygiadol wedi'u nodi yn eu ffeiliau gofal. Mae'r tîm o staff rheolaidd yn adnabod y bobl yn dda iawn, ac yn gallu nodi unrhyw faterion iechyd corfforol neu iechyd meddwl y bobl yn gyflym, newid eu dull gweithredu, a gofyn am gyngor gan weithwyr meddygol proffesiynol mewn modd amserol yn ôl yr angen.

Mae gan y gwasanaeth fesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth a niwed. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu pobl sy'n agored i niwed ac mae polisi diogelu ar waith i arwain y staff. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy gyfleoedd i gael gofal a chyngor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Caiff atgyfeiriadau at weithwyr proffesiynol eu gwneud mewn modd amserol, ac mae tystiolaeth i ddangos bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn ymweld â'r preswylwyr. Cynhelir y broses recriwtio gan yr adran adnoddau dynol, gan sicrhau bod y gweithwyr gofal sy'n cael eu recriwtio yn ffit ac yn addas i weithio yn y sector gofal.

Mae'r bobl yn byw mewn llety addas, sydd ar y cyfan yn cefnogi ac yn annog eu llesiant. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn cynnwys eitemau personol o'u dewis ac wedi'u dodrefnu'n addas. Caiff yr adeiladau eu cynnal a'u cadw'n dda a chaiff gwiriadau diogelwch eu cwblhau pan fo angen. Mae'r amgylchedd yn rhydd o annibendod a chaiff peryglon eu lleihau cyn belled ag sy'n bosibl. Mae'r drws ffrynt ar glo, ac mae gofyn i ymwelwyr lofnodi'r llyfr ymwelwyr fel bod y staff bob amser yn gwybod pwy sydd yn y gwasanaeth.

Mae systemau effeithiol ar waith ar gyfer monitro ac archwilio safonau cymorth a'r amgylchedd, dan oruchwyliaeth yr unigolyn cyfrifol. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddiwr y gwasanaeth ar gael i'r unigolion neu eu cynrychiolwyr. Gall yr unigolion gael gafael ar wasanaethau eirioli annibynnol.

## Gofal a Chymorth

Mae angen gwella safon y gofal a'r cymorth a ddarperir yn y gwasanaeth. Mae angen ystyried y lefelau staffio yn ystod arferion gofal personol boreol y bobl er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cynlluniau gofal personol a'r asesiadau risg yn glir ac yn rhoi gwybodaeth i'r staff i'w galluogi i ddarparu gofal a chymorth i'r bobl yn unol â'r anghenion a nodwyd. Mae'r nodiadau a'r siartiau dyddiol yn dangos nad yw'r bobl bob amser yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt pan fo'i angen. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn adlewyrchu anghenion cyfredol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r gwaith i sicrhau y caiff y bobl neu eu heiriolwyr eu cynnwys wrth adolygu'r cynlluniau yn barhaus. Nid oes gan y bobl reolaeth dros eu bywydau bob amser, er enghraifft ni allant godi a mynd i'w gwelyau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny. Mae nifer sylweddol o'r bobl sy'n byw yn y cartref yn dibynnu'n llwyr ar y staff i sicrhau eu bod yn bwyta digon o fwyd ac yn yfed digon o hylif, i'w helpu i ail-leoli, a chael gofal ymataliaeth. Nid yw'r cofnodion dyddiol yn dangos tystiolaeth bod y canlyniadau personol yn cael eu cyflawni mewn perthynas â hyn. Mae hwn yn faes i'w wella, a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Mae'r tîm rheoli wedi cymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn drwy gynyddu'r lefelau staffio.

Mae systemau diogelwch ar waith er mwyn helpu i leihau'r risg i'r bobl, megis defnyddio drysau y mae angen allwedd ffob i'w hagor a llyfr cofrestru i ymwelwyr pan fyddant yn cyrraedd. Mae'r staff yn cael yr hyfforddiant diogelu diweddaraf, a chadarnhaodd yr unigolion hynny y gwnaethom siarad â nhw y byddent yn rhoi gwybod pe baent yn gweld arfer gwael a'u bod yn deall sut i godi pryder. Dywedodd y bobl sy'n byw yn y cartref eu bod yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd un unigolyn wrthym, “*We are all safe here*”. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn helpu i gadw'r bobl yn ddiogel sy'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.

Mae'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn cael eu meddyginiaeth fel y'i rhagnodwyd i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r gwasanaeth yn cwblhau gwiriadau, sy'n sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio ar dymheredd cywir ac felly'n parhau i fod yn effeithiol. Mae archwiliadau meddyginiaeth yn sicrhau bod y staff yn cynnal arfer da ac yn nodi unrhyw feysydd i'w gwella. Nid oedd unrhyw fylchau na gwallau yn y sampl o gofnodion meddyginiaeth a welsom; caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel mewn cyfleuster dan glo a chaiff gwiriadau o gyffuriau a reolir a stoc eu rheoli'n effeithiol.

Caiff arferion hylan eu hyrwyddo ac mae'r gwasanaeth yn rheoli'r risg o haint. Mae gan y gwasanaeth bolisi rheoli heintiau, sy'n cynnwys strategaeth atal heintiau. Roedd trafodaethau â'r staff yn cadarnhau bod ganddynt ddigon o gyfarpar diogelu personol a nwyddau glanhau. Yn ystod y daith o amgylch y cartref, gwelsom fod y staff yn gwisgo cyfarpar diogelu personol pan fo angen.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n byw yn y cartref yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n cefnogi eu llesiant. Mae tystiolaeth bod darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yn yr amgylchedd. Mae rhai o'r ystafelloedd gwely ar y llawr nyrsio cyffredinol yn cael eu hail-addurno, gyda lloriau a chadeiriau newydd. Mae 'Ystafell De' newydd ar y llawr nyrsio cyffredinol yn ogystal ag ystafell weithgaredd newydd yng nghymuned y bobl sydd â dementia. Mae'r cyfleusterau golchi dillad yn addas i ddiwallu anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus heb unrhyw beryglon. Caiff y gegin ei harolygu gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar hyn o bryd mae ganddi sgôr o 5 (da iawn).

Caiff cyfrinachedd ei gynnal ym mhob rhan o'r cartref. Caiff y bobl eu diogelu rhag ymwelwyr heb awdurdod yn dod i mewn i'r adeilad gan fod yn rhaid i bob ymwelydd ganu cloch y drws ffrynt cyn dod i mewn. Gofynnir i bob ymwelydd gofnodi ei ymweliad yn y llyfr ymwelwyr wrth gyrraedd a gadael. Caiff cofnodion gofal electronig a dyfeisiau eu storio'n ddiogel yn swyddfa'r nyrsys a dim ond staff awdurdodedig all gael gafael arnynt.

Mae'r cartref yn darparu amgylchedd glân sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac mae digon o gyfarpar i ddiwallu anghenion y bobl. Mae systemau ar waith i archwilio a gwasanaethu'r amgylchedd a'r cyfarpar yn rheolaidd. Gwelsom fod cyfarpar addas ar gael i'r bobl er mwyn helpu i'w cadw'n ddiogel ac i atal anafiadau o ganlyniad i gwympo. Mae lifft ar gael ac mae'n gweithio'n iawn. Mae pob ardal yn edrych yn lân ac mae gweithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael gwybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall y gofal, y cymorth a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae'r datganiad o ddiben a'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn disgrifio'r trefniadau cyfredol sydd ar waith yn gywir, mewn perthynas â llety'r gwasanaeth, atgyfeirio, a'r broses derbyn. Ar ben hyn, y math o ofal a chymorth sydd ar gael a sut mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu gwasanaeth iaith Gymraeg. Mae'r datganiad o ddiben hefyd yn cynnwys manylion am drefniadau goruchwylio a hyfforddi'r gwasanaeth ar gyfer y staff gofal a'r staff nyrsio.

Mae staff sydd wedi cael eu recriwtio'n briodol ac sy'n cefnogi'r bobol yn gofalu am y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae'r adran adnoddau dynol yn cadarnhau bod y broses recriwtio staff yn bodloni'r holl ofynion rheoleiddiol. Caiff aelodau newydd o'r staff sesiynau sefydlu yn unol â gofynion Gofal Cymdeithasol Cymru, ac mae bob nyrs wedi cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu. Mae gan y cwmni bolisïau a gweithdrefnau cadarn i'r staff eu dilyn. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o bolisïau: cwynion, chwythu'r chwiban, rheoli heintiau, meddyginiaeth a diogelu, a gwelsom eu bod yn gyfredol. Mae'r nyrsys a'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol a chynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r bobl.

Mae'r bobl yn cael cymorth gan staff sy'n ymddangos yn wybodus, ond mae angen iddynt gael hyfforddiant mwy rheolaidd. Mae'r trafodaethau a gafwyd â'r staff yn dangos eu bod yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddiogelu ac y byddent yn codi unrhyw bryderon â'r tîm rheoli. Ar y cyfan, mae gan y staff ddealltwriaeth dda o'r polisïau allweddol a dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn meddu ar y sgiliau priodol i ymgymryd â'u dyletswyddau. Fodd bynnag, nid oedd y matrics hyfforddiant a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant craidd, sy'n hanfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd diogel. Mae hyn yn faes i'w wella. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â hyn a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod ein harolygiad nesaf.

Mae systemau a phrosesau ar waith i fonitro, adolygu a gwella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir. Caiff gwybodaeth am ansawdd y gofal ei chasglu a'i hadolygu at ddibenion gwella. Gwelsom fod y bobl, eu teuluoedd/eiriolwyr a gweithwyr proffesiynol ar y cyfan yn rhoi adborth cadarnhaol am y gofal a roddir. Dywedodd y staff wrthym fod prinder staff rheolaidd yn effeithio ar forâl. Mae'r tîm rheoli yn cydnabod y problemau staffio diweddar. Mae rhaglen barhaus ar waith i recriwtio staff, a chaiff staff asiantaeth eu defnyddio. Mae'r gwasanaeth yn rhoi gwybod i'r cyrff rheoleiddio a'r asiantaethau statudol perthnasol yn briodol pan fydd pryderon a digwyddiadau arwyddocaol a all effeithio ar lesiant yr unigolyn sy'n derbyn gofal.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 21 | Nid yw'r gofal a'r cymorth yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n hyrwyddo llesiant a diogelwch y bobl orau. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r matrics hyfforddiant presennol yn cynnwys yr holl hyfforddiant wyneb yn wyneb. | Heb Gyflawni |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 07/08/2024